

Ymateb Cymdeithas yr Iaith i ymgynghoriad Adolygu darpariaeth Cyfrwng Gymraeg

Fel nifer ar draws y sir mae Cymdeithas yr Iaith yn awyddus i weld ysgol uwchradd Gymraeg yn Hwlfordd ond rydym hefyd am weld cynllun hir dymor i ddatblygu addysg Gymraeg ar draws y sir. Er mai ymwneud ag addysg uwchradd Gymraeg yn Hwlfordd mae'r ymgynghoriad hwn rydyn ni o'r farn mai symud pob ysgol gynradd ac uwchradd ar hyd y continwmm ieithyddol sydd ei angen fel bod pob disgybl yn astudio rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg a bod hynny'n cynyddu'n raddol. Byddai symud pob ysgol ar hyd y continwmm iaith yn golygu yn y pen draw na fyddai rhaid i ddisgyblion deithio i gael addysg Gymraeg, ac yn sicrhau fod mwy o bobl ifanc ar draws y sir yn cael addysg Gymraeg yn eu hardal leol.

Mae cymeryd yn ganiataol bod holl disgyblion yr ysgol yn Hwlfordd yn mynd i deithio i Ysgol y Preseli er mwyn parhau ag addysg Gymraeg. Oherwydd cyfleustra, dydyn ni ddim yn rhagweld y byddai pob disgybl yn gwneud, ac y bydden nhw'n mynd, yn lle hynny, i Goleg Sir Benfro. Ar hyn o bryd does dim darpariaeth Gymraeg yng Ngholeg Sir Benfro. Galwn felly am ddealltwriaeth y bydd yr ysgol uwchradd Gymraeg yn Hwlfordd yn datblygu i fod yn ysgol 1118oed fel y bydd blynyddoedd yn gweithio trwodd. Gallai'r ddarpariaeth Gymraeg 16-18oed fod trwy gydweithrediad rhwng adnoddau dysgu'r ysgol a Choleg Sir Benfro. Dylai hyn fod yn gatalydd i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i sicrhau darpariaeth Gymraeg yng Ngholeg Sir Benfro.

Mae ardaloedd fel Dinbych y Pysgod, ble mae bwriad agor ysgol Gymraeg, a Phenfro ble mae bwriad datblygu yr uned Gymraeg yn enghreifftiau perffaith o'r angen i wneud hyn. Fydd ysgol uwchradd Gymraeg yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i ddisgyblion yno gan y bydd Ysgol y Preseli yn dal i fod mor gyfleus.

Ni ddylai disgyblion a addysgir yn ysgolion cyfrwng-Saesneg y sir gael eu hamddifadu'n llwyr o'r sgil i fedru cyfathrebu a gweithio'n Gymraeg. Mae angen dechrau cyflwyno – yn ôl adnoddau'r ysgol – o leiaf rywfaint o'r cwricwlwm yn Gymraeg i bob disgybl. Nid mater o ad-drefniant yn unig felly yw darpariaeth addysg Gymraeg.